# Polisi Stiwardiaeth
# Partneriaeth Pensiwn Cymru

## 1 Cyflwyniad a Goruchwyliaeth

1.1 Partneriaeth Pensiwn Cymru (Y Bartneriaeth) yw'r trefniant cronni ar gyfer asedau wyth o gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru (yr Awdurdodau Cyfansoddol).

1.2 Goruchwylir trefniadau buddsoddi PPC gan Gydbwyllgor Llywodraethu (CBLl) ac fe'i cefnogir gan Weithgor Swyddogion (GS) a'u gweithredu drwy ystod o fuddsoddiadau PPC – mae hyn yn cynnwys Is-gronfeydd a reolir yn weithredol, ynghyd â mandadau goddefol o fewn marchnadoedd rhestredig; a rhaglenni buddsoddi a reolir yn weithredol mewn marchnadoedd preifat (anhylifol) - a reolir gan ei Reolwyr Buddsoddi. Dirprwyir y cyfrifoldeb am graffu arferion stiwardiaeth i Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol y Bartneriaeth ("Is-grŵp BC"), sy'n rhoi trosolwg a chyngor i'r GS a'r Cydbwyllgor ar faterion buddsoddi cyfrifol (RI).

1.3 Mae'r ddogfen hon yn nodi polisi PPC ar stiwardiaeth, gan gynnwys gweithgarwch ymgysylltu â phleidleisio drwy ddirprwy mewn perthynas â'r holl asedau a fuddsoddir yn Is-grwpiau PPC, ynghyd â gweithgaredd ymgysylltu ar yr asedau goddefol sydd wedi'u cronni, ynghyd ag unrhyw weithgaredd ymgysylltu perthnasol o fewn rhaglenni buddsoddi marchnad preifat. Mae'r PCC yn deall y gall gweithgarwch stiwardiaeth fod yn wahanol ar draws asedau wedi'u rhestru o gymharu â rhai nad ydynt wedi'u rhestru. Datblygwyd y polisi hwn gan y Bartneriaeth mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol gan gymryd cyngor gan ei ymgynghorwyr a'r Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu ("Darparwr PacY") sydd wedi'i benodi.

1.4 Mae'r Bartneriaeth wedi penodi Robeco fel ei Ddarparwr PacY. Rôl y Darparwr PacY yw:

- Rhoi mewnbwn i'r Bartneriaeth ar ddatblygu Polisi Stiwardiaeth addas;
- Gweithio gyda'r Bartneriaeth i ddeall themâu blaenoriaeth y Bartneriaeth a'r Awdurdodau Cyfansoddol ar gyfer pleidleisio ac ymgysylltu a sicrhau bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y gwaith a wneir gan Robeco ar ran y Bartneriaeth;
- Ymgymryd â phleidleisio drwy ddirprwy ar yr holl gyfranddaliadau a ddelir yn is-gronfeydd y Bartneriaeth;
- Ymgysylltu â chwmnïau sydd wedi'u dal yn is-gronfeydd y Bartneriaeth â'r mandadau goddefol sydd wedi'u cyd-fuddsoddi i gyflawni'r amcanion ymgysylltu ar ran y Bartneriaeth;
- Adrodd yn chwarterol ar y gweithgarwch pleidleisio ac ymgysylltu a wneir ar ran y Bartneriaeth;
- Trafod y gweithgarwch buddsoddi ac ymgysylltu a wneir ar ran y Bartneriaeth gyda'r Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol a'r partïon eraill.
- Cefnogi'r WPP yn ei uchelgeisiau stiwardiaeth.

## 2 Pleidleisio

2.1 Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod fod Robeco yn cynnal polisi pleidleisio mewnol (Polisi Pleidleisio Robeco). Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod ymhellach fod Robeco yn adolygu a diweddaru'r Polisi hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cynrychioli arfer orau.

2.2 Mae'r Bartneriaeth wedi adolygu Polisi Pleidleisio Robeco ac mae'n credu bod yr egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori ym Mholisi Pleidleisio Robeco yn adlewyrchiad priodol o amcanion y Bartneriaeth. Felly, mae'r Bartneriaeth wedi rhoi cyfarwyddyd i Robeco bleidleisio ar yr holl gyfranddaliadau a ddelir yn is-gronfeydd y Bartneriaeth yn unol â'r Robeco House Voting Policy.

2.3 Mae Robeco yn cynnal system o hysbysiadau pleidleisio lle mae'r rhesymeg dros bleidleisiau sydd o bosib am fod yn arwyddocaol neu'n gynhennus, yn cael eu rhannu â'r Bartneriaeth cyn pleidleisio. Cyhyd ag y bo modd, bydd y Bartneriaeth yn adolygu'r pleidleisiau hyn yn unigol ac yn unol â hynny, cyfarwyddo Robeco ar sut i bleidleisio.

2.4 Mae'r Bartneriaeth yn aelod o'r Fforwm Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol ("LAPFF"). Lle mae'r LAPFF yn cyflwyno hysbysiadau pleidleisio, mae'r Bartneriaeth wedi cyfarwyddo Robeco i ystyried sylwedd yr hysbysiad pleidleisio cyn pleidleisio ar ran y Bartneriaeth, er fod Robeco yn cynnal cyfrifoldeb am y penderfyniad terfynol ar unrhyw bleidlais, lle mae pleidlais a gafodd ei bwrw yn groes i'r rhybudd pleidleisio LAPFF, mae'r Bartneriaeth yn gofyn i Robeco ddarparu eglurhad o'r gwahaniaeth.

## 3 Ymgysylltu

3.1 Mae PPC yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu wrth lunio ymddygiad corfforaethol fel un o fanteision ehangach perchnogaeth weithredol. Mae PPC yn credu y gall ymgysylltiad llwyddiannus â chwmnïau buddsoddwyr i sbarduno newid ddiogelu a gwella gwerth hirdymor buddsoddiadau PPC a sicrhau canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol mwy ffafriol.

3.2 Mae PPC yn dibynnu'n helaeth ar ei Darparwr PacY, sydd â'r prif gyfrifoldeb am ymgymryd ag ymgysylltiad o'r fath ar ei rhan gyda chwmnïau sy'n cael eu dal o fewn Is-gronfeydd rhestredig PPC a mandadau goddefol wedi'u cronni. Mae PPC yn cydnabod yn gyfartal yr ymrwymiadau cydamserol a wnaed gan Reolwyr Buddsoddi PPC, yn ogystal â LAPFF. Mae PPC yn deall y sefyllfa unigryw y mae ei Rheolwyr Buddsoddi Marchnadoedd Preifat ynddi i ddylanwadu ar ymddygiad cwmnïau buddsoddi ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu perthnasol, ac mae'n disgwyl iddynt wneud hynny.

3.3 Mae PPC yn cydnabod y budd posibl sydd i'w gael mewn ymgysylltu cydweithredol, ac yn annog ei Darparwr PacY a'i Reolwyr Buddsoddi i gymryd rhan mewn mentrau o'r fath, yn enwedig i'r graddau bod mentrau o'r fath yn adlewyrchu Themâu Stiwardiaeth gyffredinol y PPC.

## 4 Uwchgyfeirio

4.1 Er nad yw PPC wedi mabwysiadu polisi eithrio o fewn ei threfniadau buddsoddi yn gyffredinol, mae PPC o'r farn na ddylai'r broses stiwardiaeth fod heb ganlyniad, yn enwedig pan fernir bod ymgysylltu wedi bod yn aflwyddiannus. Gall ymgysylltiadau aflwyddiannus gynnwys diffyg ymatebolrwydd gan y cyhoeddwr, methiant i gydnabod y pryderon a godwyd o fewn yr ymgysylltiad neu wrthod mynd i'r afael yn ddigonol â'r pryderon a godwyd.

4.2 Mae PPC yn cydnabod bod ganddi nifer o offer sydd ar gael iddi i gymryd camau pellach mewn sefyllfaoedd lle bernir bod ymgysylltu wedi bod yn aflwyddiannus. Er nad yw'n rhestr gynhwysfawr, yn y lle cyntaf, gall PPC geisio uwchgyfeirio pryderon ymhellach trwy:

- Gymryd rhan mewn ymgysylltu ar y cyd gyda buddsoddwyr eraill o'r un anian i fynd i'r afael â phryderon;
- Mynegi pryderon yn benodol mewn gohebiaeth ysgrifenedig gyda'r Bwrdd;
- Defnyddio pleidleisio drwy ddirprwy fel offeryn ar gynigion cysylltiedig neu fel y maent yn ymwneud ag enwebiadau perthnasol i'r Bwrdd;

- Ffeilio penderfyniadau cyfranddalwyr sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â phryderon.

4.3 Er bod PPC yn cydnabod bod ymgysylltu yn digwydd am wahanol resymau, mae PPC yn canolbwyntio'n benodol ar yr ymgysylltiadau hynny sy'n ceisio mynd i'r afael â thorri normau byd-eang, materion enw da, neu lle mae potensial i greu risg ariannol sylweddol i fuddsoddiadau. Ar y cyd â'i darparwr PacY, Rheolwyr Buddsoddi, Awdurdodau Cyfansoddol a chynrychiolwyr eraill, mae PPC wedi datblygu set o Egwyddorion Uwchgyfeirio fydd yn rheoli sut y bydd PPC yn mynd i'r afael ag ymgysylltiadau o'r fath, fel a ganlyn:

- Dylid cyfathrebu'r targed a'r amcanion ymgysylltu yn glir ac yn rheolaidd rhwng partïon.
- Dylai amcanion yr ymgysylltiad gael eu gosod yn erbyn yr achos buddsoddi parhaus ar gyfer y daliad.
- Dylid adrodd ar gynnydd i bob rhanddeiliad.
- Dylid nodi'n glir y camau uwchgyfeirio a gymerir gan gynrychiolwyr PPC yn ystod yr ymgysylltiad.
- Dylai ymgysylltiad (gwell) yr adroddir ei fod wedi methu gan Ddarparwr PacY PPC sbarduno mwy o adrodd parhaus gan Reolwyr Buddsoddi PPC.
- Dylai Darparwr PacY PPC barhau i wneud argymhellion pleidleisio ar stociau sy'n cael eu cadw ar ôl ymgysylltiad aflwyddiannus.
- Er y bydd Rheolwyr Buddsoddi PPC, fel ymddiriedolwr, yn cadw cyfrifoldeb am bob penderfyniad gwerthu, ystyrir cael gwared os bydd uwchgyfeirio yn methu.

## 5 Themâu Stiwardiaeth a Fframwaith

5.1 Bydd y Bartneriaeth yn cynnal cyfres o 'Themâu Stiwardiaeth' sy'n ymdrin â phynciau sy'n benodol o bwys i gredoau ac amcanion y Bartneriaeth. Mae tri phwrpas i osod Themâu Stiwardiaeth:

- sicrhau bod y Bartneriaeth yn barod i fwrw ati i graffu'r gweithgarwch pleidleisio ac ymgysylltu â wneir ar ei ran;
- sicrhau bod y materion sy'n peri pryder i'r Bartneriaeth wedi cael eu cyfleu yn llawn i'w Reolwyr Darparwr a Buddsoddi PacY; ac
- i sicrhau bod ymarferiad stiwardiaeth yn cyflawni'r deilliant a ddymunir.

5.2 Bydd Fframwaith Stiwardiaeth benodol PPC yn cefnogi datblygu themâu o'r fath. Mae'r Fframwaith Stiwardiaeth yn darparu dull ar gyfer symleiddio Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig yn gyfres o themâu craidd, y gellir penderfynu ar Themâu Stiwardiaeth PPC ar eu cyfer. Bydd y fframwaith hefyd yn cydberthyn themâu ymgysylltu LAPFF a Darparwr PacY PPC, gan gefnogi mewnbwn PPC i unrhyw leoliad thema perthnasol yno. Bydd y fframwaith yn caniatáu i PPC ystyried esblygiad Themâu Stiwardiaeth cyfredol PPC, yn ogystal â nodi unrhyw fylchau posibl. Mae themâu a gweithgarwch PPC sy'n gysylltiedig â themâu o'r fath wedi'u hamlinellu yn ein hadroddiad Stiwardiaeth flynyddol.

5.3 Bydd y Bartneriaeth yn ymgynghori gydag Awdurdodau Cyfansoddol yn flynyddol i ystyried y themâu sy'n dod i'r amlwg y dylid eu hadlewyrchu yn Themâu Stiwardiaeth y Bartneriaeth.

5.4 Bydd y Bartneriaeth yn tynnu sylw ei Ddarparwr PacY a'i Reolwyr Buddsoddi at ei Themâu Stiwardiaeth. Bydd y Bartneriaeth yn defnyddio'r Themâu Stiwardiaeth ar sail barhaus i graffu gweithgarwch y Darparwr PacY a'r Rheolwyr Buddsoddi, i sicrhau bod y deilliannau stiwardiaeth yn parhau i fod yn unol â'r disgwyliadau ac adnabod unrhyw feysydd pryder posib.

5.5 Un maes thematig penodol sy'n peri pryder i PPC yw newid yn yr hinsawdd. Er mwyn hwyluso stiwardiaeth o amgylch yr hinsawdd, bydd PPC yn cadw rhestr o gwmnïau sy'n 'canolbwyntio ar yr hinsawdd', lle bydd gweithgarwch stiwardiaeth yn cael ei graffu yn benodol, fel yr amlinellir ym Mholisi Hinsawdd PPC.

5.6 Bydd y Bartneriaeth yn adrodd ar y gweithgarwch a wnaed yn erbyn y Themâu Stiwardiaeth a chwmnïau sy'n canolbwyntio ar yr hinsawdd ar sail barhaus, gan gynnwys yn flynyddol yn ei adroddiad Stiwardiaeth.

## 6 Adolygu'r Polisi Stiwardiaeth

6.1 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n ffurfiol gan y Gweithgor Swyddogion bob blwyddyn, ac os bydd angen, cyflwynir newidiadau i'r polisi gerbron y Cydbwyllgor i'w cymeradwyo.

6.2 Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod fod Polisi Pleidleisio Mewnol Robeco yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn rheolaidd. Bydd Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol yn adolygu unrhyw newidiadau i'r Polisi Pleidleisio Mewnol, ac yn adrodd ar unrhyw faes pryder perthnasol i'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor Llywodraethu.

- Mewn amgylchiadau lle nad oes maes pryder perthnasol, bydd Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol y Bartneriaeth yn cyfarwyddo Robeco i roi'r Polisi Pleidleisio Mewnol wedi'i ddiweddaru ar waith yn syth.
- Pan fo maes pryder perthnasol, bydd Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol y Bartneriaeth yn cyfarwyddo Robeco i gynnal y Polisi Pleidleisio Mewnol presennol. Yna, bydd y Bartneriaeth yn ymgysylltu â Robeco ac yn pennu pa gamau gweithredu y gellir eu cymryd.

6.3 Lle mae'r Bartneriaeth yn adnabod unrhyw faes diddordeb penodol i'r Bartneriaeth drwy ei ymgysylltu gydag Awdurdodau Cyfansoddol, bydd yr Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol yn ystyried ac yn cytuno ar p'un a ddylid codi mater o'r fath gyda Robeco. Lle y cytunir ar fater o'r fath, bydd y Bartneriaeth yn egluro ei safbwynt i Robeco ac yn gofyn i fater o'r fath gael ei adlewyrchu yn natblygiad parhaus Polisi Pleidleisio Mewnol Robeco.

## 7 Monitro / adrodd ar weithgarwch stiwardiaeth

7.1 Mae'r Is-grŵp BC yn gyfrifol am gymryd trosolwg a monitro'r stiwardiaeth a wneir gan y darparwr PacY a Rheolwyr Buddsoddi'r Bartneriaeth, ac os oes angen, herio'r Darparwr PacY a'r Rheolwyr Buddsoddi er mwyn deall y gweithgarwch stiwardiaeth y mae wedi ymgymryd ag ef ar ran y Bartneriaeth.

7.2 Bydd y Bartneriaeth yn derbyn adroddiad ar yr holl weithgarwch stiwardiaeth (ar gyfer asedau rhestredig), gan gynnwys manylion unrhyw bleidleisiau (is-gronfeydd gweithredl) na chafodd eu bwrw ac esboniadau lle na chafodd pleidleisiau eu bwrw yn unol â'r egwyddorion cytunedig ar sail chwarterol. Ar gyfer asedau marchnad breifat, mae PPC yn disgwyl adroddiadau stiwardiaeth bob blwyddyn o leiaf. Bydd y PPC yn trafod unrhyw faterion sy’n achosi pryder gyda’i Ddarparwr PacY, Rheolwyr Buddsoddi neu ddirprwyon eraill, yn ôl y gofyn.

7.3 Bydd y Bartneriaeth yn adrodd ar weithgareddau stiwardiaeth bob chwarter i bob Awdurdod Cyfansoddol.

## 8 Gwybodaeth bellach

8.1 Os hoffech ragor o fanylion am Bolisi Stiwardiaeth PPC, cysylltwch â walespensionpartnership@carmarthenshire.gov.uk ac ewch ar wefan PPC.

Mehefin 2024